

Dewis Cymru

Cael dewis a chymryd rheolaeth

Ydych chi'n chwilio am wasanaethau lleol sy'n gallu eich helpu?



Gwefan yw **Dewis Cymru** sy'n ceisio helpu pobl gyda'u llesiant. Dyma'r lle **GORAU** i bobl fynd am wybodaeth neu gyngor am lesiant – boed eu llesiant eu hun neu lesiant aelod o'r teulu neu ffrind.

Mae ganddo wybodaeth sy'n gallu eich helpu i feddwl am beth sy'n bwysig i chi, yn ogystal â gwybodaeth am bobl a gwasanaethau yn eich ardal chi sy'n gallu eich helpu gyda'r pethau sy'n bwysig i chi.

Ydy Dewis Cymru yn gallu fy helpu i?

Mae Dewis Cymru wedi ei ddatblygu i helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am gyrff a gwasanaethau sy'n gallu eu helpu i gymryd rheolaeth dros eu llesiant eu hun, **felly rhywbeth i CHI yw Dewis Cymru!**

Wrth sôn am lesiant, nid eich iechyd yn unig sydd dan sylw. Rydym ni'n sôn am bethau fel ble rydych yn byw, pa mor ddiogel rydych chi'n teimlo, mynd allan, a chadw mewn cysylltiad â'ch teulu a ffrindiau.

Bydd amgylchiadau pob unigolyn yn amrywio ac mae llesiant yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Felly mae Dewis Cymru yma i helpu chi i ddysgu mwy am beth sy'n bwysig i chi.

Pa fath o wybodaeth sydd ar Dewis Cymru?

Mae llawer o wybodaeth ar Dewis Cymru am lesiant, bod yn ddiogel, bod gartref, a bod yn gymdeithasol. Mae ganddo wybodaeth hefyd am reoli'ch arian, a gwybodaeth os ydych chi'n gofalu am rywun arall.

Efallai gwybodaeth gyffredinol fydd hi i'ch helpu i feddwl am beth sy'n bwysig, neu fe allai fod yn rhywbeth mwy penodol – am y mathau o gymorth ychwanegol a allai eich helpu chi i fyw yn eich cartref eich hun mor hir â phosibl, er enghraifft.

Ble alla i ddod o hyd i Dewis Cymru?

Mae ond angen mynd i

www.dewis.cymru. Yna cewch chi chwilio am wasanaethau lleol neu bori ein tudalen-nau gwybodaeth genedlaethol i'ch helpu i feddwl am beth sy'n bwysig i chi. Os oes angen unrhyw help arnoch chi, rhwch wybod i ni gan ddefnyddio'r ddolen 'Cysylltu â ni' ar y wefan a byddwn ni'n hapus i'ch helpu.



@DewisCymru



/DewisCymru

